# Enw'r Ysgol: Y Traeth

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn y CS ac yn CA2. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o arferion gwahanol grefyddau, yn gallu adrodd straeon o'r Beibl a'n gwrando ac yn ymateb yn dda yn ystod gwasanaethau gan aelodau eglwysi lleol pob pythefnos pan fyddant yn cyflwyno straeon o'r Beibl. Mae gwaith y disgyblion yn cynnwys ysgrifennu estynedig ar sail testun crefyddol.

**Materion i gael sylw**
Sicrhau cysondeb yn safon y gwaith ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Amserlennir Addysg Grefyddol yn wythnosol a dilynir y Maes Llafur Cytun Lleol yn gywir. Mae'r pwnc wedi ei addysgu gan un athrawes i holl ddisgyblion yn CA2 ers blynyddoedd ac felly mae ganddi wybodaeth drylwyr o'r pwnc ac wedi datblygu arbenigedd yn dilyn hyfforddiant a phrofiad. Mae digon o adnoddau addas yn yr ysgol a gwneir defnydd o eglwysi lleol a'r ddau ficer yn rheolaidd.
Dengys arsylwi gwersi ar draws yr ysgol fod y disgyblion yn cyrraedd safonau da a'n cael eu cymell i gyrraedd safonau uchel. Fel rhan o'r gwaith ar ddathliadau mae'r CS yn cynnal gwasanaethau ffug fel priodas.

**Materion i gael sylw**
Yn dilyn newid staffio eleni rhaid sicrhau fod arbenigedd y cyd-lynydd yn cael ei rannu rhwng gweddill y staff.✓

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** ✓ | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Gwasanaethau dyddiol yn cael ei gynnal unai fel ysgol gyfan neu ymhob dosbarth.

Aelodau eglwysi lleol yn dod i'r ysgol pob pythefnos i gynnal gwasanaeth boreol yn adrodd straeon y Beibl "Agor Y Llyfr".

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

**Sicrhau fod staff newydd yn cydymffurfio â'r drefn o gynnal gwasanaeth boreol yn y dosbarth pan nad oes gwasanaeth ysgol gyfan.**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Elin Wyn Jones (Pennaeth)

Dyddiad: 15/10/15